**PAPURAU BUSNES**

**Rhan I – Adran D**

**Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 16 Mehefin 2000**

**R Yn dynodi bod yr aelod wedi datgan buddiant**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff gadarnhau unrhyw drafodaethau/ camau sydd ar y gweill i brydlesu mwy o dir mewn perthynas â lleoli'r Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd. (WAQ5982)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Gyllid

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff gadarnhau beth yw cyfanswm y gost hyd yn hyn o wella a thrwsio T Crucywel ers y penderfynwyd lleoli'r Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd. (WAQ5983)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** I amlinellu ei fwriadau cyllido at y dyfodol ar gyfer Cynllun Grantiau'r Mudiad Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol. (WAQ5980)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** I amlinellu'r cyllido ar gyfer 2000-2001 gogyfer â'r cynlluniau canlynol:-

a. Cynllun Grantiau'r Mudiad Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol
b. Partneriaeth Ieuenctid Gymunedol (WAQ5981)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Dim ond ychydig o achosion o MRSA sydd gan Sweden a'r Almaen. Pa fesurau sy'n cael eu cymryd i sicrhau y gall Cymru yn y dyfodol fod mewn sefyllfa debyg? (WAQ5987)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa gamau o ran gwell glendid sy’n cael eu cymryd i ymladd y cynnydd yn nifer yr achosion o MRSA a heintiau eraill sy’n cael eu dal gan gleifion tra yn yr ysbyty? (WAQ5986)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa gamau sy’n cael eu cymryd i gynyddu’r ddarpariaeth o welyau ar gyfer pobl oedrannus eiddil eu meddwl yn ardal Wrecsam. (WAQ5985)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa drafodaethau y mae wedi’u cael ag Ymddiriedolaeth Wrecsam Maelor ynghylch y ddarpariaeth o welyau i bobl oedrannus eiddil eu meddwl yn eu hardal. (WAQ5984)